

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

Polisi Diogelwch - Gweithio Mewn Mannau Uchel

1. Cyflwyniad
2. I bwy mae'r polisi hwn yn gymwys?
3. Y sefyllfa gyfreithiol
4. Mesurau rheoli
5. Defnyddio ysgolion
6. Harneisi diogelwch
7. Dyletswyddau gweithwyr
8. Hyfforddiant
9. Cynnal a chadw ac archwilio

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae nifer o staff Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) yn gweithio mewn mannau uchel yn rheolaidd. Mae'n bolisi gennym i sicrhau nad yw'r staff hyn nac unrhyw ymwelwyr ac ati yn cael eu rhoi mewn unrhyw berygl ychwanegol o ganlyniad i'w rôl yn y swydd.
- 1.2 Er mwyn cyflawni hyn, bydd asesiad risg yn cael ei gynnal cyn i unrhyw waith ddechrau mewn mannau uchel. Wedi hynny, bydd y mesurau rheoli mwyaf addas ar gyfer pob swydd unigol yn cael eu cyflwyno fel sy'n angenrheidiol.
- 1.3 Dylid nodi bod gwaith mewn mannau uchel yn cwmpasu'r holl waith a wneir lle mae yna risg o gwmpo, ac nid dim ond y gweithgareddau hynny sy'n cynnwys neu'n ymwneud ag uchder o ddwy fetr neu fwy.

2. I bwy mae'r polisi hwn yn gymwys?

- 2.1 Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl staff a gwirfoddolwyr APCE (cyfeirir atynt i gyd fel 'gweithwyr' yn y polisi hwn).

3. Y sefyllfa gyfreithiol

- 3.1 Mae'r polisi hwn wedi cael ei ddatblygu i helpu APCE i gyflawni'r dyletswyddau a roddwyd iddo o ganlyniad i'r Rheoliadau Gweithio ar Uchder (WAHR) 2005 fel a ganlyn:
 - Mae'n rhaid i bob gweithgaredd gwaith a wneir mewn mannau uchel gael eu cynllunio a'u trefnu'n briodol.
 - Mae asesiad risg yn cael ei wneud i asesu'r tasgau dan sylw.
 - Yn dilyn yr asesiad hwn, mae'r offer gwaith priodol yn cael eu dewis a'u defnyddio.
 - Dylai bawb sy'n gweithio mewn mannau uchel yn gymwys i wneud hynny

- Dylai unrhyw risgiau sydd a wnelo arwynebau to bregus gael eu rheoli'n gywir
- Pan fo offer yn cael ei ddefnyddio i weithio mewn mannau uchel, fe fydd yn cael ei archwilio a'i gynnal a'i gadw yn dda.

4. Mesurau rheoli

- 4.1 Bydd APCE yn gweithredu'r mesurau rheoli angenrheidiol i sicrhau y bydd y peryglon o weithio mewn mannau uchel yn cael ei leihau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys sicrhau mynedfeydd ac allanfeydd o'r gweithle.
- 4.2 Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd yr angen i weithio mewn mannau uchel yn cael ei osgoi, ond mewn nifer o achosion, cydnabyddir nad yw hyn yn bosibl. Os yw hyn yn wir, mae'n bolisi gan APCE bod y mesurau rheoli canlynol yn cael eu gweithredu

Mynedfa / Allanfa ddiogel o'r safle

Bydd APCE yn cymryd camau i sicrhau bod y rhai sy'n gweithio ar y safle yn gallu cael mynediad ac yn gallu gadael yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys mynediad at gerbydau, dod â deunyddiau ar ac oddi ar y safle a'r angen i ddiogelu staff eraill, ymwelwyr neu gontractwyr yn sgil ein gweithgareddau.

Dewis offer mynediad

Wrth ddewis offer mynediad mae WAHR (y rheoliadau gweithio mewn mannau uchel) yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried mesurau atal syrthio / cwmpo casgliadol yn hytrach na rhai unigol e.e. gwneud defnydd o sgaffaldiau yn hytrach na harneisiau diogelwch. Felly, wrth wneud y dewis, mae angen ystyried nifer o ffactorau, gan gynnwys y canlynol:

- Yr amodau gwaith cyffredinol ac unrhyw gyfyngiadau o ran gofod
- Natur y risgiau dan sylw ar gyfer y rhai sy'n gwneud y gwaith
- Y pellteroedd sy'n gysylltiedig â chludo cyfarpar mynediad ar y safle
- Pellteroedd a chanlyniadau cwmpo posibl
- Pa mor aml y bydd yr offer yn cael ei ddefnyddio ac am ba hyd
- Yr angen am allu gadael / gwacáu yn hawdd ac yn amserol a / neu achub mewn achos o argyfwng
- Unrhyw risgiau ychwanegol a berir yn sgil y defnydd a wneir, neu wrth osod neu symud offer gwaith ymaith

Diogelu rhag cwmpo / disgyn

Pan fo offer mynediad yn cynnwys llwyfannau gwaith ac ymylon lle y gall gweithwyr syrthio oddi arnynt; bydd rheiliau gwarchod, byrddau blaen a rhwystrau diogelu eraill (fel y bo'n briodol) yn cael eu defnyddio.

Toeau bregus

Pan fo gwaith yn cael ei wneud ar arwynebau to, bydd yr Awdurdod yn gwneud pob ymholiad rhesymol i nodi a yw'r gwaith hwn yn cynnwys to sydd wedi ei

wneud o ddeunydd bregus e.e. y math o rai sydd ddim yn dal llwyth. Os mai felly mae hi, bydd yr holl ragofalon angenrheidiol yn cael eu hystyried i sicrhau bod staff yn gallu gwneud y gwaith yn ddiogel e.e. drwy ddefnyddio byrddau cropian a rhwydi diogelwch o dan y wyneb bregus. Mewn achosion pan nad yw'n wybyddus beth yw cyfansoddiad y to, tybir ei fod yn wyneb bregus a bydd rhagofalon yn cael eu cymryd yn unol â hynny.

Goruchwyliaeth

Bydd staff yn cael eu goruchwyllo yn ôl yr angen er mwyn sicrhau bod unrhyw offer mynediad a ddefnyddir yn cael ei osod yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Bydd goruchwylwyr hefyd yn sicrhau bod arferion gweithio diogel yn cael eu mabwysiadu ar bob adeg.

Offer wedi'i logi

Bydd unrhyw offer sy'n cael ei llogi, fel tyrau mynediad symudol yn cael eu gwirio yn drylwyr cyn eu cydosod a'u defnyddio.

5. Defnyddio ysgolion

- 5.1 Er nad yw'r Awdurdod Iechyd a Diogelwch Gweithredol (HSE) wedi gwahardd defnyddio ysgolion, nid yw'n ystyried eu bod yn briodol pe gallai dewisiadau mwy diogel eraill gael eu defnyddio yn lle hynny.
- 5.2 Fel sy'n ofynnol gan Reoliadau 'WAHR', bydd asesiad risg yn cael ei gynnal er mwyn pennu a oes dewisiadau / opsiynau eraill ac os ydynt yn ymarferol mewn sefyllfa benodol.
- 5.3 Ers i'r Rheoliadau WAHR gael eu cyflwyno, mae'n debygol mai dim ond yn addas ar gyfer (i) gweithgareddau risg isel; a (ii) gwaith am gyfnod byr fydd defnyddio ysgolion.

6. Harneisi diogelwch

- 6.1 Fel offer diogelwch personol rhag syrthio, dylai harneisiau diogelwch ddim ond cael eu defnyddio fel yr opsiwn olaf, e.e. Os nad yw'n bosibl cael mynediad drwy gyfrwng dulliau mwy diogel. Fodd bynnag, mae'n rhaid cynnal asesiad risg yn gyntaf er mwyn penderfynu a all gwaith gael ei wneud yn ddiogel gyda harnais diogelwch.
- 6.2 Os oes angen defnydd o'r fath, bydd staff yn cael eu hyfforddi nid yn unig ar sut i'w defnyddio yn ddiogel, ond sut i wirio bod yr offer yn dal i fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

7. Dyletswyddau gweithwyr

- 7.1 Disgwylir i'r holl weithwyr fabwysiadu arferion gweithio diogel bob amser a dilyn unrhyw gyfarwyddyd a wneir ynghylch eu diogelwch hwy a'u cydweithwyr.

Disgwylir hefyd i weithwyr gydosod a defnyddio unrhyw offer gwaith yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a'r hyfforddiant a gawsant.

- 7.2 Os bydd unrhyw ddiffygion yn cael eu canfod, dylid rhoi gwybod amdanynt i'r rheolwr llinell / Pennaeth Gwasanaeth.

8. Hyfforddiant

- 8.1 Oherwydd y gall gweithio mewn mannau uchel gynnwys y defnydd o wahanol ddulliau mynediad, mae'r Awdurdod yn mynnu bod pob aelod o staff sydd angen defnyddio offer o'r fath yn cael hyfforddiant yn gyntaf ar sut i'w defnyddio yn ddiogel. Gall hyn ddigwydd pan fo'r gweithiwr yn cyflawni ei waith neu trwy gyfrwng hyfforddwr allanol, fel y bo'n briodol.

9. Cynnal a chadw ac archwilio

- 9.1 Bydd yr holl offer a ddefnyddir ar gyfer gweithio mewn mannau uchel yn cael ei gynnal yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ac unrhyw ofynion deddfwriaethol cyfredol.
- 9.2 Disgwylir hefyd i weithwyr wneud archwiliadau gweledol o'r offer hwn cyn ei ddefnyddio.
- 9.3 Bydd unrhyw archwiliad pellach fel sy'n ofynnol yn ôl statud hefyd yn cael ei wneud gan unigolyn â'r cymwysterau priodol.

Gwybodaeth bellach

HES: INDG 401 (rev 2) 'Working at Height'

Medi 2016

Corfforaethol\Personel\Haf\Polisiau\Lechyd a Diogelwch\Work at Height Safety Policy